# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**London House**

**Aston Care Ltd**
**1-2 Cadle Mill Cottages**
**Cadle Mill**
**Abertawe**
**SA5 4PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# London House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Aston Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Hydref 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Cartref gofal i oedolion â salwch meddwl gweithredol/ organig y mae angen cymorth arnynt i ymgymryd â gofal personol yw London House. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Abertawe. Gall y bobl fynd i'r gymuned leol a defnyddio'r cyfleusterau lleol. Mae'r cartref mewn adeilad deulawr mawr ar wahân. Mae wedi'i leoli ar ei dir ei hun ag ardaloedd parcio ac ardaloedd awyr agored diogel y mae'n eu rhannu â chartrefi gofal eraill y darparwr.

Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ogystal â gweithgareddau grŵp yn y gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r cyfarpar a'r cyfleusterau yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Ceir ymdeimlad da o waith tîm, o dan arweiniad rheolwr da sy'n meddu ar gymwysterau addas. Caiff cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio eu cynnal yn rheolaidd gan roi'r cyfle i staff drafod. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cynnal yn dda er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cyflawni ei rwymedigaethau rheoliadol ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod safon y gofal yn dda.

## Llesiant

Mae’r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff medrus a gwybodus sy'n cael hyfforddiant diogelu ac sy'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r bobl. Mae digon o staff i ddarparu gofal a chymorth amserol. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff diogel a medrus, ac mae gan y darparwr systemau da ar waith ar gyfer recriwtio staff. Cynhelir gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chânt eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi da hefyd. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthnasau da â'r staff. Hefyd, gwelsom y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r bobl. Dywedodd y staff eu bod nhw'n teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi gan gynnwys sylwadau fel “*the managers are there when I need support.* A *“the management team is great”.*

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae ystafelloedd y bobl mewn cyflwr da, yn cynnwys eitemau personol o'u dewis ac wedi'u dodrefnu'n dda. Mae cyfleusterau ar gael iddynt sy'n annog annibyniaeth ac yn eu galluogi i dreulio amser ar eu pen eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym: *“This is a lovely place with really nice people, it's like being at home”.*

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r unigolion yn cael eu cefnogi gan staff gyfarwydd sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r bobl yn edrych yn drwsiadus, yn gyfforddus ac fel petaent yn cael gofal da. Caiff yr unigolion eu hannog i wneud dewisiadau bob dydd er mwyn cynnal eu hannibyniaeth gymaint â phosibl. Gwelsom y staff yn helpu'r bobl gan ddangos parch tuag atynt. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; *“The strengths of the service in my opinion are that they have created a homely feel and, in my visits, there residents all appear well cared for”.*

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn lle dymunol i fyw ynddo, ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno i adlewyrchu chwaeth yr unigolyn. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl, yn ogystal â phreifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain ac ardal awyr agored.

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu da ar waith gan y gwasanaeth sy'n cynnwys trefniadau rheoli llinell a dulliau cyfathrebu da. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau ei fod ar gael i siarad â'r bobl yn y gwasanaeth. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiadau monitro ansawdd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth hwn yn wasanaeth da; mae'r bobl yn cael eu cefnogi i reoli eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth gweithredol i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon. Roedd sylwadau'r bobl yn cynnwys, "*we do our washing on separate days, clean our room and help wash dishes*". Gwelwyd hyn ar ddiwrnod yr arolygiad ac roedd yn cael ei ategu gan gynlluniau personol ac asesiadau risg da. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl.

Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn cadarnhau a all ddiwallu anghenion y bobl sy'n cael eu cefnogi ganddo. Cynhelir asesiadau cyn derbyn sy'n helpu'r staff i ddeall anghenion a chanlyniadau'r bobl. Caiff y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth, sy'n dangos i'r bobl beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth, eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd y bobl wrthym: *"I like it here"* ac *"I wouldn't change anything".*

Mae gan y darparwr systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n agored i niwed y mae'n eu cefnogi. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu'r bobl. Gwnaethom siarad â'r staff a ddangosodd eu bod yn deall y prosesau diogelu a'u bod yn hyderus i fynegi pryder. Dywedodd y staff wrthym; "*Safeguarding is concern you have about someone vulnerable. I would report this to the manager".*

Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn sylwi ar unrhyw ddirywiad yn eu hiechyd, gan ofyn am gymorth meddygol pan fo angen. Gwelwyd hyn yn y cofnodion iechyd a'r nodiadau dyddiol. Gwelsom fod y staff yn gyfarwydd â hoff bethau a chas bethau'r bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau a welwyd. Caiff y bobl eu helpu i gynnal cydberthnasau â'u perthnasau. Gwelsom y bobl yn cael cymorth i wneud galwadau wyneb yn wyneb â pherthnasau.

Mae gan y darparwr systemau da ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth, a chaiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal. Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir. Gwelwyd bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo, a gwelwyd cofnodion o wiriadau tymheredd dyddiol er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd hyfforddiant yn cael ei roi i'r staff a oedd yn gyfrifol am roi meddyginiaeth. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y cynllun hyfforddiant a chan y staff.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal a chymorth y bobl yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sydd â chyfleusterau sy'n hybu llesiant a diogelwch y bobl. Mae'r gwasanaeth yn gyfforddus, yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da ac yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus yn yr ardaloedd cymunedol ac mae ystafelloedd y bobl yn cael eu dodrefnu ganddynt ac yn cynnwys eitemau personol sy'n bwysig iddynt. Dywedodd un o'r bobl, *"I'm happy, I wouldn't make any changes to my room".*

Mae gan y darparwr systemau ar waith i nodi a lliniaru risg i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a chaiff gwiriadau amgylcheddol a gwiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r archwiliadau hyn yn ymdrin â: lloriau, goleuadau, llwybrau dianc, dyfeisiau trydanol, ystafelloedd ymolchi, cyflenwadau PPE, ardaloedd awyr agored. Dywedodd y staff wrthym; *"The RI is really good he replaces anything we ask for".*

Ceir dealltwriaeth dda o'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, sy'n sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer yr unigolion hynny nad oes ganddynt y galluedd angenrheidiol i gael eu cynnwys yn llawn yn y broses o gynllunio eu cymorth. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y ddogfennaeth a welwyd. Mae'r darparwr yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i nodi a lleihau risgiau i'r bobl. Pan wnaethom gyrraedd y gwasanaeth, roedd y fynedfa wedi'i chau er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel, gofynnwyd i ni gadarnhau ein manylion adnabod, a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r trefniadau diogelwch tân. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y staff yn rhoi gwybod am faterion cynnal a chadw yn y gwasanaeth, a bod camau yn cael eu cymryd i ymdrin â'r materion hynny. Mae'r ystafell golchi dillad yn fach, yn drefnus ac yn cael ei rheoli'n briodol. Mae systemau priodol ar waith er mwyn helpu i reoli heintiau, i sicrhau hylendid ac ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (CoSHH).

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu'n unol â'r Datganiad o Ddiben sy'n nodi pa wasanaethau a gaiff eu darparu a sut. Mae'r staff yn cael hyfforddiant, sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae cynllun hyfforddiant y staff yn gyfredol. Dywedodd y staff wrthym; *The last training, I completed was safeguarding. I feel I have sufficient training to enable me to do the job. If I need additional training, they will provide me with it".* Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n gweithio tuag at gofrestru.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae gan aelodau'r tîm wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u cyfrifoldebau rheoliadol. Roedd y tîm yn fwy na pharod i fod yn agored drwy gydol yr arolygiad. Roedd tystiolaeth o hyn mewn ymweliadau monitro ansawdd ac adroddiadau a luniwyd gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnwys camau gweithredu i'r rheolwr a'r tîm er mwyn cynnal a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth. Dywedodd y staff wrthym; *"He speaks to service users and families if they are visiting, and professionals".*

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o dîm da sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Gwelsom fod sesiynau goruchwylio ac arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, eu bod wedi'u cofnodi'n ddigonol a'u bod yn cefnogi llesiant y staff. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r broses ddiogelu. Mae polisi diogelu clir ar waith sydd ar gael i bob aelod o'r staff. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu fel rhan o'r rhaglen sefydlu a darperir diweddariadau ar-lein. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i roi gwybod am faterion. Dywedodd y bobl wrthym: *'I feel safe', ac 'I like the staff'.*

Mae prosesau recriwtio da ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y darparwr yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol wrth recriwtio staff. Mae gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cynnal ac maent yn gyfredol. Mae sawl aelod o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers cyfnod hir, sy'n darparu parhad o ran gofal a chymorth i'r bobl. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; "*Residents appear to have their needs met and I have observed staff responding to requests in a timely manner".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid oedd gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ar y safle fel mater o drefn. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/07/2023